Cylchlythyr Prosiect Gwyrdd

Annwyl Randdeiliad,

Fel y gwyddoch mae Prosiect Gwyrdd yn ymgymryd â phroses gaffael, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ddarparu cyfleusterau gwastraff gweddilliol i drin y gwastraff sy'n weddill ar ôl ailgylchu a chompostio i'r eithaf ym mhob ardal.

Mae'r cyfranogwyr canlynol wedi'u gwahodd i gyflwyno 'Datrysiadau Manwl' (yn nhrefn yr wyddor)

Covanta Energy Ltd: Mae Covata Energy Ltd yn cynnig cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni masnachol ym Mrig y Cwm, Merthyr Tudful.

Veolia ES Aurora Ltd: Mae Veolia ES Aurora Ltd yn cynnig Cyfleuster Adfer Ynni wedi ei leoli ar Gomin Bowlease, i'r De o'r Gwaith Dur Corus presennol, yn Llanwern Casnewydd.

Viridor Waste Management Ltd: Mae Viridor Waste Management Ltd yn cynnig cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni masnachol gyda chyfleuster Gwres a Phŵer Cyfunedig wedi ei leoli ym Mharc Trident, Caerdydd.

Waste Recycling Group Ltd: Mae Waste Recycling Group Ltd yn cynnig cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni wedi ei leoli ar safle Solutia UK ar Traston Road, Casnewydd.

Gosodwyd cyfraddau gwyro tirlenwi llym ar Awdurdodau Lleol, os bydd unrhyw awdurdod lleol yn mynd tu hwnt i'r rhain, bydd yn derbyn dirwy o £200 am bob tunnell o wastraff tu hwnt i'r lwfans a roddwyd.

Dengys profiad Ewropeaidd y gall triniaeth gwastraff gweddilliol weithio'n dda gyda chyfraddau ailgylchu a chompostio uchel, a ddangosir yn yr Iseldiroedd, yr Almaen ac Awstria. Mae Cymru, ynghyd â'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi dewis cyfradd ailgylchu a chompostio lleiaf o 70% erbyn 2025 ac yng Nghymru mae'r swm gwastraff y gellir ei anfon i ynni o drin gwastraff wedi'i gapio, yn unol â thargedau ailgylchu a chompostio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae awdurdodau partner wedi datblygu strategaethau gwastraff i weithio tuag at darged ailgylchu a chompostio cyfun o 65% gan adfer 5% pellach trwy driniaeth gwastraff gweddilliol.

Ers 2 Tachwedd, 2010, mae'r targed ailgylchu a chompostio 70% ar gyfer gwastraff dinesig yng Nghymru yn gyfreithiol orfodol, ac yn gofyn cael Cydsyniad Brenhinol cyn ei basio fel deddf.

Ers cam Cyn Cymhwyster y broses gaffael gwahoddwyd 8 cyfranogwr i gyflwyno 'Datrysiadau Amlinellol'. Mae'r cyflwyniadau a dderbyniwyd wedi'u gwerthuso yn unol á'r meini prawf gwerthuso.

Bydd y cyhoeddiad cyhoeddus trwy'r cyfryngau yn cael ei wneud yfory, **8 Rhagfyr**. Nawr bod proses werthuso'r 'Datrysiadau' Amlinellol wedi'u cwblhau a safleoedd wedi'u nodi, bydd digwyddiadau rhanddeiliaid yn cael eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn newydd. Bydd rhagor o wybodaeth ar y digwyddiadau hyn yn cael eu hanfon atoch drwy e-bost, yn cael eu hysbysebu ar www.prosiectgwyrdd.co.uk a thrwy'r cyfryngau.

Bydd tudalen gaffael newydd hefyd yn cael ei huwchlwytho ar y wefan yfory, fel y gall y cyhoedd weld y camau caffael cyflawn a chamau'r dyfodol hyd nes y rhoddir y contract.

Mae'r Tîm Prosiect ar gael ar y ffôn neu e-bost, ffoniwch **02920 717523** neu e-bostiwch **info@prosiectgwyrdd.co.uk**

Cofion cynnes,
Prosiect Gwyrdd